Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

VOLUNTEERING CONFERENCE

Volunteers in focus

Galeri, Caernarfon • Wednesday 15 September 2010

Conference aims:

- to raise the profile of volunteers within their organisations
- to promote good practice in volunteer management
- to provide up to date information on relevant volunteering issues

Target audience:

The conference will be of particular interest to:

- people who have a responsibility for volunteer programmes
- volunteers
- people who have a general interest in the promotion of good practice in volunteering

Placing volunteers at the centre of your organisation

Programme

9.45 **Registration, tea and coffee**

10.15 **Welcome and introductions**

Chair: Bethan Russell Williams,
Chief Officer, Mantell Gwynedd

10.20 **Opening address**

Rt Hon Dafydd Wigley,
Honorary President Plaid Cymru

10.40 **Timebanking - lessons and challenges for volunteering**

Richard Andrews,
Corporate Instinct Ltd

11.40 **Coffee break**

12.00 **Morning workshop session**
(workshops repeated in afternoon workshop session)

1. Developing a volunteer friendly organisation
2. Volunteering programmes – the two way approach
3. Volunteers in focus – the youth friendly approach
4. Handling difficult situations involving volunteers
5. Involving volunteers through consultation and feedback

13.00 **Lunch**

14.00 **Afternoon workshop session**

15.00 **Volunteering Dragons Den**

– a youth panel responds to a selection of volunteering opportunities

15.30 **Thanks and closing remarks**

Following last year's conference focus on 'volunteering experience', this year we explore how volunteer involving organisations can develop ways of working which truly respect and enhance the experience of volunteers.

The 2010 annual volunteering conference places volunteers in the centre of our thinking.

Volunteers in focus

Richard Andrews will explore, in an interactive, plenary session, how Timebanking can be used to recognise and value human endeavour, and to increase community engagement. He will examine the principles that underpin voluntary contribution and reflect on the lessons, challenges and opportunities for voluntary sector organisations, and for volunteering.

There will be an opportunity through workshops to explore practical topics in more detail. In creating new opportunities, consulting with volunteers, handling difficulties – how do we ensure that the volunteer experience is recognised and is a positive one.

A young people's panel will be invited to appraise a selection of volunteering opportunities provided by those attending the conference, and to give their verdict on what's on offer.

Whether you have long experience of volunteer management or are new to the field; whether you are a paid staff member or are a volunteer yourself , there promises to be something of value at this year's conference.

Workshops

1. Developing a volunteer friendly organisation

Fiona Liddell, WCVA

What makes for a volunteer friendly organisation? We shall identify what it is that volunteers look for, and what might put them off from getting involved in a particular organisation. There will be opportunity to rate our own organisation's practice and to consider how it might become more responsive to volunteer needs and aspirations.

The Investing in Volunteers Standard will be introduced, as a model of good practice in working with volunteers and as a quality mark for volunteer management.

The workshop is particularly suitable for those who are new to volunteer management and for those who want to know more about the Investing in Volunteers Award.

I thought overall there was an excellent mix of topics- I only wish I could have attended all the break-out sessions! Well done!

2. Volunteering programmes – the two way approach

Reverend Wynne Roberts, Betsi Cadwaladr University Health Board

We often have very prescriptive ideas of how volunteers can 'fit into' our organisation. More and more people are approaching organisations with skills they would like to use and offers of help outside of the roles available. Reverend Wynne Roberts from Betsi Cadwaladr University Health Board offers examples of how Ysbyty Gwynedd in Bangor has evolved its volunteering programme to meet the needs of the hospital but also the aspirations of the people who offer their time.

This is an opportunity to explore the possibilities of tapping into the talents and skills of volunteers you may have previously been overlooked.

3. Volunteers in focus – the youth friendly approach

GwirForce

Involving young people as volunteers in your organisation can be a very worthwhile venture but is often quite a daunting prospect. GwirForce is a youth led organisation which has recently developed a charter for young volunteers and a 'stamp of approval' to test how youth friendly volunteering opportunities are.

This workshop will give organisations a chance to understand the expectations of young volunteers and look at how to realistically manage these through the opportunities they offer. GwirForce will outline the charter and how the 'stamp of approval' can help to develop a volunteering programme without barriers to young people.

4. Handling difficult situations involving volunteers

Shirley David

It is easy enough to sweep difficulties under the carpet, rather than to confront them, where volunteers are concerned. How do we cope with difficult situations in ways which are respectful to the volunteer and which maintain the integrity of the whole organisation? What are the legal implications of not handling difficult situations correctly? Do volunteers have rights?

Some guiding principles for addressing difficulties will be introduced, then difficult situations will be explored, by discussion of case study examples.

NB. Shirley will also be available for brief one to one consultation sessions from 13.15 onward, during the lunch break. If you wish to discuss a specific issue with her, please sign up on the day, at the registration desk

5. Involving volunteers through consultation and feedback

Melanie Andrews, Barnardos Cymru

Volunteers have their own perspective on our organisation. We do volunteers, and the organisation, an injustice if we do not tap into their insights and views by expressly seeking to consult on matters that affect them. We shall explore how this can be done in ways which help to grow a learning and listening culture – and how to avoid this becoming one more bureaucratic burden.

Motivation is enhanced by constructive feedback on performance. A model will be presented for identifying and communicating to volunteers the collective impact of their contributions.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

CYNHADLEDD GWIRFODDOLI

Canolbwyntio ar wirfoddolwyr

Galeri, Caernarfon • Dydd Mercher 15 Medi 2010

Nodau'r gynhadledd:

- cynyddu proffil gwirfoddolwyr yn eu mudiadau
- hybu arferion da wrth reoli gwirfoddolwyr
- darparu gwybodaeth ddiweddar ar faterion gwirfoddoli perthnasol

Cynulleidfa darged:

Bydd y gynhadledd o ddiddordeb penodol i:

- bobl sydd â chyfrifoldeb dros raglenni gwirfoddolwyr
- gwirfoddolwyr
- pobl sydd â diddordeb cyffredinol mewn hybu arferion da ym maes gwirfoddoli

Rhoi gwirfoddolwyr wrth wraidd eich mudiad

Rhaglen

9.45 **Cofrestru, te a choffi**

10.15 **Croeso a chyflwyniadau**

Cadeirydd: Bethan Russell Williams, Prif Swyddog, Mantell Gwynedd

10.20 **Anerchiad agoriadol**

Y Gwir Anrhydeddus Dafydd Wigley, Llywydd Anrhydeddus Plaid Cymru

10.40 **Bancio amser – gwersi a sialensiau i waith gwirfoddol**

Richard Andrews, Corporate Instinct Ltd

11.40 **Egwyl goffi**

12.00 **Sesiwn gweithdai'r bore** (ailadroddir y gweithdai yn sesiwn gweithdai'r prynhawn)

1. Datblygu mudiad sy'n gyfeillgar wrth wirfoddolwyr
2. Rhaglenni gwirfoddoli – gweithredu mewn dwy ffordd
3. Canolbwyntio ar wirfoddolwyr – dull sy'n gyfeillgar wrth ieuenctid
4. Delio â sefyllfaoedd anodd sy'n cynnwys gwirfoddolwyr
5. Cynnwys gwirfoddolwyr drwy gyfrwng ymgynghori ac adborth

13.00 **Cinio**

14.00 **Sesiwn gweithdai'r prynhawn**

15.00 **Dragons Den Gwirfoddoli**

– panel ieuenctid yn ymateb i ddetholiad o gyfleoedd gwirfoddoli

15.30 **Diolchiadau a sylwadau cloi**

Yn dilyn ffocws cynhadledd y llynedd ar 'brofiad gwirfoddoli', eleni byddwn yn archwilio sut y gall mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ddatblygu ffyrdd o weithio sy'n gwir barchu ac yn gwella profiad gwirfoddolwyr.

Mae cynhadledd flynyddol gwirfoddoli 2010 yn rhoi gwirfoddolwyr yn ganolog yn ein meddyliau.

Canolbwyntio ar wirfoddolwyr

Bydd Richard Andrews yn archwilio, mewn sesiwn lawn, ryngweithiol, sut y gellir defnyddio Bancio amser i gydnabod a gwerthfawrogi ymdrech pobl, a chynyddu cyswllt cymunedol. Bydd e'n archwilio'r egwyddorion sy'n sylfaenu cyfraniad gwirfoddol ac yn adlewyrchu'r gwersi, y sialensiau a'r cyfleoedd i fudiadau sector gwirfoddol, ac i wirfoddoli.

Ceir cyfle, drwy'r gweithdai, i archwilio testunau ymarferol yn fwy manwl. Wrth greu cyfleoedd newydd, ymgynghori â gwirfoddolwyr, delio ag anawsterau – sut ydym yn sicrhau bod profiad gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod a'i fod yn un cadarnhaol.

Caiff panel pobl ifanc ei wahodd i werthuso detholiad o gyfleoedd gwirfoddoli a ddarperir gan y rheini sy'n mynychu'r gynhadledd, a rhoi'u barn.

Pa un a oes gennych brofiad helaeth o reoli gwirfoddolwyr neu'ch bod yn newydd i'r maes; pa un a ydych yn aelod staff cyflogedig neu'n wirfoddolwr eich hun, rydych yn sicr o gael rhywbeth o werth yng nghynhadledd eleni.

Gweithdai

1. Datblygu mudiad sy'n gyfeillgar wrth wirfoddolwyr

Fiona Liddell, WCVA

Beth sy'n gwneud mudiad sy'n gyfeillgar wrth wirfoddolwyr? Byddwn yn nodi'r hyn y mae gwirfoddolwyr yn chwilio amdano, a'r hyn sy'n gallu arwain at iddynt beidio â bod awydd bod yn gysylltiedig â mudiad penodol. Ceir cyfle i farnu ymarfer ein mudiad ein hunain ac ystyried sut y gallai fod yn fwy ymatebol i ddyheadau ac anghenion gwirfoddolwyr.

Caiff y Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ei chyflwyno, fel model ymarfer da wrth weithio gyda gwirfoddolwyr ac fel nod ansawdd ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr.

Mae'r gweithdy yn addas iawn i'r rheini sy'n newydd i reoli gwirfoddolwyr ac i'r rheini sydd eisiau gwybod rhagor am y Dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Ar y cyfan teimlais bod cymysgedd arbennig o dda o bynciau yn cael eu trafod- fe faswn ni wedi bod wrth fy modd yn cael mynd i bob sesiwn ymlol! Da iawn!

2. Rhaglenni gwirfoddoli – gweithredu mewn dwy ffordd

Parchedig Wynne Roberts, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae gennym yn aml syniadau pendant iawn am sut y gall gwirfoddolwyr 'ffitio i mewn' i'n mudiad. Mae mwy a mwy o bobl yn cysylltu â mudiadau gyda sgiliau yr hoffent eu defnyddio gan gynnig help y tu allan i'r rolau sydd ar gael. Mae'r Parchedig Wynne Roberts o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig esiamplau o'r modd y mae Ysbyty Gwynedd ym Mangor wedi datblygu'i raglen wirfoddoli i fodloni anghenion yr ysbyty ond hefyd dyheadau'r bobl sy'n cynnig eu hamser.

Mae hwn yn gyfle i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio doniau a sgiliau gwirfoddolwyr yr ydych o bosib wedi'u diystyru yn flaenorol.

3. Canolbwyntio ar wirfoddolwyr – dull sy'n gyfeillgar wrth ieuenctid

GwirForce

Gall cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr yn eich sefydliad fod yn fenter gwerth chweil ond mae'r syniad yn aml yn ddychrynllyd. Mae GwirForce yn fudiad sydd dan arweiniad ieuenctid sydd yn ddiweddar wedi datblygu siarter ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc ynghyd â 'stamp cymeradwyaeth' i weld pa mor addas ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc yw cyfleoedd.

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi i fudiadau gyfle i ddeall disgwyliadau gwirfoddolwyr ifanc ac yn edrych ar sut i reoli'r rhain yn realistig drwy gyfrwng y cyfleoedd a gynigiant. Bydd GwirForce yn amlinellu'r siarter a'r modd y gall y 'stamp cymeradwyaeth' helpu i ddatblygu rhaglen wirfoddoli nad yw'n atal pobl ifanc.

4. Delio â sefyllfaoedd anodd sy'n cynnwys gwirfoddolwyr

Shirley David

Mae'n ddigon hawdd ysgubo anawsterau o dan y carped, yn hytrach na delio â nhw, lle mae gwirfoddolwyr dan sylw. Sut ydym ni'n delio a sefyllfaoedd anodd mewn ffyrdd sy'n dangos parch at y gwirfoddolwr ac sy'n cynnal uniondeb y sefydliad cyfan? Beth yw goblygiadau cyfreithiol peidio â delio yn gywir â sefyllfaoedd anodd? A oes gan wirfoddolwyr hawliau?

Bydd egwyddorion arweiniol ar gyfer rhoi sylw i anawsterau yn cael eu cyflwyno, yna caiff sefyllfaoedd anodd eu harchwilio drwy drafod esiamplau o astudiaethau achos.

DS. Bydd Shirley hefyd ar gael ar gyfer sesiynau ymgynghori un wrth un byr o 1.15 ymlaen, yn ystod yr egwyl ginio. Os hoffech drafod mater penodol gyda hi, cofrestrwch ar y diwrnod wrth y ddesg gofrestru.

5. Cynnwys gwirfoddolwyr drwy gyfrwng ymgynghori ac adborth

Melanie Andrews, Barnardos Cymru

Mae gan wirfoddolwyr eu safbwyntiau eu hunain ar ein sefydliad. Rydym yn gwneud cam â gwirfoddolwyr, a'r sefydliad os na ddefnyddiwn eu dealltwriaeth a'u safbwyntiau drwy fynd ati'n arbennig i ymgynghori â nhw ar faterion sy'n effeithio arnynt. Byddwn yn archwilio sut y gellir gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n helpu i feithrin diwylliant o ddysgu a gwrando – a sut i osgoi bod hwn yn dod yn un baich biwrocrataidd ychwanegol.

Mae rhoi adborth adeiladol ar berfformiad yn gwella cymhelliant. Caiff model ei gyflwyno ar gyfer nodi a chyfleu wrth wirfoddolwyr gyd-effaith eu cyfraniadau.